OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

# Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 4

## Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

**Cytundeb lleoli unigolyn**

**12.**—(1) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth leoli unigolyn gyda gofalwr lleoli oedolion oni bai bod y darparwr gwasanaeth wedi ymrwymo i gytundeb lleoli unigolyn â'r gofalwr lleoli oedolion.

(2) Rhaid bod cytundeb lleoli unigolyn ar gyfer pob unigolyn sydd i'w leoli gyda'r gofalwr lleoli oedolion.

(3) Pryd bynnag y bo'n ymarferol, rhaid i'r unigolyn fod yn barti i'r cytundeb, a rhaid rhoi copi iddo o'r cytundeb wedi ei lofnodi sy'n ymwneud â'r gofal a'r cymorth sydd i'w darparu i'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys mewn cytundeb lleoli unigolyn wybodaeth sy'n galluogi pob parti sy'n ymwneud â'r cytundeb i ddeall ei rolau a'i gyfrifoldebau.

(5) Rhaid i'r cytundeb lleoli unigolyn hefyd gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

(a) pryd bynnag y bo'n ymarferol, enw unigolyn ac eithrio aelod o staff y darparwr gwasanaeth, yr unigolyn cyfrifol neu'r gofalwr lleoli oedolion, sydd, gyda chydsyniad datganedig neu oblygedig yr unigolyn, yn cymryd diddordeb yn iechyd a lles yr unigolyn;

(b) yr ystafell sydd i'w meddiannu gan yr unigolyn yng nghartref y gofalwr lleoli oedolion;

(c) y ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r lleoliad a chan bwy y maent yn daladwy.

(6) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau yn eu lle i sicrhau bod unigolion yn cael unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol i'w galluogi i ddeall yr wybodaeth a gynhwysir mewn unrhyw gytundeb o'r fath.

(7) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth adolygu'r cytundeb lleoli unigolyn—

(a) o leiaf unwaith o fewn blwyddyn gyntaf y lleoliad;

(b) pryd bynnag y gwneir newid sylweddol i'r cynllun personol;

(c) ar gais rhesymol yr unigolyn, unrhyw gynrychiolydd neu'r gofalwr lleoli oedolion;

(d) beth bynnag, o fewn blwyddyn i'r adolygiad diwethaf.

(8) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb lleoli unigolyn mewn unrhyw achos pan fo'r gofalwr lleoli oedolion yn peidio â bod yn addas i fod yn ofalwr lleoli oedolion yn unol â rheoliad 36.

(9) Heb ragfarnu paragraff (8), rhaid i'r darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb gofalwr mewn unrhyw achos pan fo'n ymddangos i'r darparwr gwasanaeth nad yw neu na fydd y gofalwr lleoli oedolion yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y cytundeb lleoli unigolyn.

(10) Ni chaiff y darparwr gwasanaeth derfynu cytundeb lleoli unigolyn heb ymgynghori'n gyntaf â'r unigolyn, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol ymgynghori ag ef.